Llywodraeth Cymru

# Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Isod mae ymatebion Llywodraeth Cymru i bob un o argymhellion y Pwyllgor a nodwyd yn adroddiad mis Gorffennaf 2024: Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

# Cynnwys


**1. Argymhellion ........ 3**

Argymhelliad 1. Cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid a chynllunio olyniaeth. ........ 3

Argymhelliad 2. Cefnogaeth i ffermwyr tenant a ffermwyr ar dir comin. ........ 3

Argymhelliad 3. Camau i ddiogelu ffermydd Cynghorau Sir. ........ 4

Argymhelliad 4. Elfen gwerth cymdeithasol y cynllun. ........ 5

Argymhelliad 5. Diweddariadau ar Weithredoedd y Cynllun. ........ 6

Argymhelliad 6. Ffermio organig. ........ 6

Argymhelliad 7. Technolegau dal ac atafaelu carbon ........ 7

**2. Casgliadau ........ 8**

Casgliad 1. Newydd-ddyfodiaid a ffermydd Cynghorau Sir. ........ 8

Casgliad 2. Methodoleg a chyfraddau talu. ........ 8

Casgliad 3. Gweithredoedd Cyffredinol ac Opsiynol a Gweithredoedd Cydweithredol. ........ 8

# 1. Argymhellion

## Argymhelliad 1. Cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid a chynllunio olyniaeth.

Ymateb: Derbyn

1. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cynllun fydd ar gael i bob ffermwr a phob math o fferm, er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer y cyfleoedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sydd o'n blaenau. Mae hynny'n cynnwys datrys problem cael hawliau hanesyddol i gefnogi ffermwyr ifanc a newydd ar y Cynllun. Cafodd y cynigion hyn eu cynnwys yn yr ymgynghoriad diweddar. Bydd yr ymatebion i hyn yn cael eu trafod gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys CFfI Cymru a'r undebau ffermio, fel rhan o ddatblygiad parhaus y cynllun a chefnogaeth ehangach i'r diwydiant.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 2. Cefnogaeth i ffermwyr tenant a ffermwyr ar dir comin.

Ymateb: Derbyn

2. Rydym yn parhau i ystyried anghenion ein sector tenantiaeth amrywiol a phwysig i sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn hygyrch i ffermwyr tenant. Mae'r meini prawf cymhwysedd arfaethedig wedi'u cynllunio i sicrhau ein bod yn cefnogi'r 'ffermwr actif'. Yn seiliedig ar adborth blaenorol gan randdeiliaid gan gynnwys Cymdeithas y Ffermwyr Tenant (TFA), mae haen Gyffredinol y cynllun wedi newid o ddull aml-flwyddyn i ddull blynyddol er mwyn bod yn fwy addas ar gyfer ffermwyr tenant. Rydym hefyd wedi diwygio rheolau sy'n benodol i'r cynllun a chynigion Gweithredoedd Cyffredinol i ddarparu'n well ar gyfer ffermwyr tenant .

3. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw rwystr unigryw i ffermwyr tenant ond rydym yn profi cynigion diwygiedig yn erbyn eu gofynion i sicrhau bod

ffermwyr tenant yn cael cyfleoedd priodol yn y Cynllun. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ford Gron Weinidogol a'i his-grwpiau i ddiffinio manylion y Cynllun. Mae Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yn eistedd ar y Ford Gron Weinidogol ac ar y Gweithgor Swyddogion i sicrhau bod anghenion tenantiaid yn cael eu hystyried.

4. Mewn ymateb i adborth rhanddeiliaid, rydym hefyd wedi cyflwyno deddfwriaeth yn ddiweddar sy'n caniatáu i denantiaid o dan Ddeddfau 1986 a 1995 geisio cymrodeddu os yw eu landlord yn gwadu'n afresymol geisiadau ynghylch cael gafael ar gymorth ariannol (fel y darperir gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023) neu fodloni gofynion rheoleiddio. Mae'r darpariaethau'n gymwys pan fydd tenantiaid yn gofyn am gydsyniad y landlord i faterion a bennir yn eu cytundeb rhentu neu pan fyddant yn dymuno newid cymal.

5. Mae dod o hyd i sefyllfa sy'n dderbyniol ar gyfer tir comin yn flaenoriaeth i ni. Rydym yn ystyried y posibilrwydd y gallai porwyr sy'n cymryd rhan mewn Cytundeb Tir Comin gael mynediad at gyllid cyfatebol i'r Categorïau Talu Cyffredinol a Chynefinoedd drwy eu pori cyfunol – yn ogystal â chyfleoedd eraill drwy weithgareddau gwella ehangach (megis mynediad, ymddygiad gwrthgymdeithasol, plannu coed, adfer cynefinoedd).

6. Rydym yn gweithio gyda chynrychiolwyr y diwydiant i ddatblygu'r syniadau hyn ac i ystyried unrhyw gynigion eraill a allai fod ganddynt. Bydd y cynigion hyn yn cael eu cyflwyno i Grwpiau Rhanddeiliaid y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, i'w hystyried cyn y gofynnir i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad terfynol ar gyflwyno'r Cynllun.

Goblygiadau ariannol: Wedi'u rheoli o fewn y gyllideb bresennol

## Argymhelliad 3. Camau i ddiogelu ffermydd Cynghorau Sir.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

7. Mae ffermydd Awdurdodau Lleol yn ased pwysig i'r diwydiant amaethyddol ac yn parhau i fod yn ffordd y mae llawer o bobl ifanc yng Nghymru yn cael mynediad i'r diwydiant.

8. Yng nghyd-destun ehangach holl dir amaethyddol Cymru, mae ffermydd Awdurdodau Lleol yn cynrychioli ardal fach, sy'n cyfrif am ychydig yn is na 1% o dir amaethyddol Cymru.

9. Yn flynyddol mae Gweinidogion Cymru, fel rhan o'r ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1970, yn cyhoeddi adroddiad ar weithgareddau Llywodraeth Cymru a gweithgareddau Awdurdodau Lleol mewn perthynas â mân-ddaliadau yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ystadegol am arwynebedd mân-ddaliadau a'r nifer ohonynt sy'n eiddo i awdurdodau lleol.

10. Yn y pen draw, mater i Awdurdodau Lleol Cymru yw rheoli'r ffermydd hyn. Nid yw Deddf Amaethyddiaeth 1970 yn rhoi rheolaeth Weinidogol dros bwerau'r awdurdodau lleol i werthu tir. Awdurdodau lleol yn unig sy'n gallu ystyried gwerthu tir, a gwneud penderfyniadau ynghylch sut maen nhw'n mynd ati i wneud hynny, ac nid yw'n rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru ymyrryd ynddo na chwarae rôl ynddo.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 4. Elfen gwerth cymdeithasol y cynllun.

Ymateb: Derbyn

11. Mae Llywodraeth Cymru wastad wedi dweud y byddwn yn cynnwys taliad am y buddion ehangach y mae ffermwyr yn eu darparu, a hynny ar ben y taliad am incwm a gollwyd a'r costau a ysgwyddwyd, i gydnabod gwerth cymdeithasol ffermio. Rydym yn gweithio ar y fethodoleg talu a'r dystiolaeth ategol a fydd yn cael eu trafod gyda Grwpiau Rhanddeiliaid y Cynllun yn ddiweddarach eleni. Mae hwn yn waith pwysig a chymhleth ac mae'n bwysig ein bod yn ei gael yn iawn er mwyn helpu i sicrhau hyfywedd ffermydd Cymru.

Goblygiadau ariannol: Wedi'u rheoli o fewn y gyllideb bresennol

## Argymhelliad 5. Diweddariadau ar Weithredoedd y Cynllun.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

12. Rydym yn hapus i ymrwymo i adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor pan ellir rhoi diweddariadau allweddol am y broses ddylunio. Ni fyddai hyn ar amserlen sefydlog fel y 3 mis a gynigiwyd yma. Y disgwyl yw y bydd o leiaf un diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor cyn diwedd y flwyddyn hon.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 6. Ffermio organig.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i ystyried y ffordd orau o wobrwyo ffermwyr organig drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a bydd yn ystyried cynlluniau ffermio organig o rannau eraill o Ewrop wrth wneud gwaith dadansoddi.

Mae'r Taliad Cymorth Organig a gynigir fel cynllun trosiannol ar hyn o bryd yn gweithio drwy ddarparu cyllid i ffermydd organig, gyda lefelau talu yn seiliedig ar eu harwynebedd tir a'r math o ffermio a wneir. Mae hyn yn debyg i gynlluniau sy'n cael eu rhedeg mewn gwledydd Ewropeaidd eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda llywodraethau eraill y DU drwy Weithgor y Pedair Gwlad ar Gynhyrchu Organig, ac maent yn ymwybodol o'r datblygiadau mewn polisi organig ledled y DU.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i fynychu cyfarfodydd Fforwm Organig Cymru a rhannu gwybodaeth a dderbynnir drwy'r cyfarfodydd hyn rhwng adrannau. Mae'r wybodaeth sy'n dod o'r cyfarfodydd hyn eisoes wedi cyfrannu at ystyriaethau o ran dylunio'r cynllun, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r Fforwm wrth iddo gael ei ddatblygu.

Bydd trafodaeth bellach rhwng Llywodraeth Cymru a Fforwm Organig Cymru i benderfynu ar y bylchau rhwng cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac arferion Ardystio Organig. Yna bydd cefnogaeth ar gyfer ffermio organig yn cael ei hystyried mewn perthynas â Haen Opsiynol y Cynllun. Yn y cyfamser, mae

Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhad y Cynllun Organig ar gyfer 2025 i gefnogi'r sector pwysig hwn.

Goblygiadau ariannol: Wedi'u rheoli o fewn y gyllideb bresennol

## Argymhelliad 7. Technolegau dal ac atafaelu carbon

Ymateb: Derbyn

13. Rydym wedi sefydlu Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon y Cynllun Ffermio Cynaliadwy fel is-grŵp o Ford Gron Weinidogol y Cynllun i lywio'r broses o'i ddylunio. Mae'r Panel yn adolygu'r dystiolaeth ar gyfer unrhyw gamau pellach neu amgen i atafaelu carbon, ynghyd â'r cyfle i gyflwyno'r camau hynny ledled Cymru fel rhan o Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau ar ddyluniad y cynllun unwaith y bydd trafodaethau'r Ford Gron a'r Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon wedi dod i ben.

Goblygiadau ariannol: Dim

# 2. Casgliadau

## Casgliad 1. Newydd-ddyfodiaid a ffermydd Cynghorau Sir.

Ymateb: Mae rhaglen gynhwysfawr o waith yn ei lle i gefnogi'r broses o ddatblygu dyluniad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn seiliedig ar dystiolaeth y Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad ac adborth uniongyrchol gan randdeiliaid. Mae grwpiau Swyddogion a Bord Gron y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'u his-grwpiau yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn proses gynhwysol i ddatblygu datrysiad derbyniol i ddyluniad y Cynllun. Mae'r Grwpiau yn ystyried pob agwedd ar y cynllun gan gynnwys tir comin a thenantiaeth. Mae'r Datganiad Ysgrifenedig diweddar ar y cynnig i dalu am ardaloedd SoDdGA fel rhan o'r categori talu cynefinoedd a'r ymateb gan randdeiliaid yn dystiolaeth fod y berthynas hon yn gweithio.

Datganiad Ysgrifenedig: Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) – Dyluniad y Cynllun yn mynd rhagddo drwy gydweithio (23 Gorffennaf 2024) |LLYW.CYMRU

## Casgliad 2. Methodoleg a chyfraddau talu.

Ymateb: Rydym wedi ymrwymo i ystyried sut y gall cyfraddau talu gynnwys ffactorau y tu hwnt i gostau a ysgwyddir a'r incwm a gollir, gan gydnabod y gwerth cymdeithasol a ddarperir gan y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni. Rydym yn gweithio ar y fethodoleg talu a'r dystiolaeth ategol a fydd yn cael eu trafod gyda Grwpiau Rhanddeiliaid y Cynllun yn ddiweddarach eleni. Mae hwn yn waith pwysig a chymhleth, ac mae'n bwysig ein bod yn ei gael yn iawn i helpu i sicrhau hyfywedd ffermydd Chymru.

## Casgliad 3. Gweithredoedd Cyffredinol ac Opsiynol a Gweithredoedd Cydweithredol.

Ymateb: Dim ond o ganlyniad i amser, ymrwymiad a thrafodaethau cadarnhaol yr holl sefydliadau sydd ar y Ford Gron Weinidogol a Grŵp Swyddogion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yr ydym yn gallu gwneud y cynnydd hwn. Mae llawer o waith

i'w wneud felly rydym yn ddiolchgar iawn am eu hymrwymiad i barhau i weithio'n gyflym